# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd Y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 6 Medi 2012 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Meirick Davies, Richard Davies, Huw Hilditch-Roberts, Colin Hughes (Cadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Peter Owen a/ac Gareth Sandilands

Observers: Y Cynghorwyr Dewi Owens a/ac Eryl Williams (Aelod Areweinol ar gyfer addysg).

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Archwiliad Mewnol (IB), Rheolwr Gwelliant Corfforaethol (TW), Prif Weithredwr (MM), Cydlynydd Rhwydwaith Addysg 14-19 oed (JG), Rheolwr Cyllid Addysg (CW), Swyddog Cynnal Archwilio (RE) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ian Armstrong a/ac Arwel Roberts

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni fynegwyd unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2012.

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 TRAWSNEWID ADDYSG ÔL 16

Cyflwynodd y Cydlynydd Rhwydwaith 14-19 (14 -19 NC) adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i'r Pwyllgor ystyried effeithiolrwydd darpariaeth addysg

ôl 16 yn y Sir a’r costau cysylltiedig. Dyma oedd y diweddaraf mewn cyfres o adroddiadau ers 2009 ac roedd yn arddangos bod y cynllun trawsnewid yn gweithio’n dda trwy roi addysg ôl 16 mewn fformat gwahanol, a ddechreuwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru.

Roedd y bartneriaeth yn gweithio mewn tair ardal ddaearyddol:-
(a) Dyffryn Clwyd
(b) Rhyl/Prestatyn a
(c) Dyffryn Dyfrdwy

Roedd cyfradd gyfranogi'r disgyblion sy’n parhau yn y Chweched Dosbarth neu’n mynd i Goleg Addysg Bellach yn Sir Ddinbych wedi codi i 89.9%, sef ail agos iawn i Sir Fynwy. Yn ardal Dyffryn Clwyd, roedd cyfradd gyfranogi'r disgyblion sy’n parhau yn y Chweched Dosbarth wedi codi i 63.2% yn 2011.

Roedd dadansoddiad wedi’i gynnal o’r myfyrwyr a oedd yn mynychu eu hysgolion “cartref” a hefyd rhai a oedd yn teithio i ysgolion partner. Roedd wedi dangos bod y myfyrwyr a oedd yn teithio i ysgolion partner yn ennill ar gyfartaledd un chwarter gradd yn uwch na’r myfyrwyr a oedd wedi aros yn eu hysgol “cartref”. Prif reswm y myfyrwyr hyn dros symud ysgol oedd cael mynediad at gyrsiau ychwanegol neu mwy o amrywiaeth o ran cyfuno pynciau. Yn nhermau cost, roedd system o drosglwyddiadau ariannol yn digwydd yn ganolog gyda phob ysgol yn derbyn incwm i bob myfyriwr yn seiliedig ar faint y dysgu a nifer y pynciau a oedd yn cael eu hastudio. Mae’r system yn gadael i ysgolion gadw 20% o’r arian a delir i’w cyllidebau craidd i’r ddarpariaeth ôl 16. Roedd costau cludiant ysgol a choleg yn broblem botensial gan nad oedd dim cyfle o fewn y gyllideb bresennol i ariannu codiadau yng nghostau cludiant. Risg potensial arall i ddarpariaeth addysg ôl 16 yn y dyfodol oedd adolygiad cenedlaethol y Gweinidog Addysg a Sgiliau o’r System Gyllido.

Mewn ymateb i faterion amrywiol a godwyd gan Aelodau, ymatebodd y 14 -19 NC fel a ganlyn:

- i ymchwilio a oedd bobl ifanc gydag anableddau neu Syndrom Asperger dan anfantais yn y system. Roedd yr ymateb i’w anfon ymlaen i’r Cydlynydd Craffu.
- i drafod gyda’r Cyfarwyddwr Corfforaethol y gost o gludiant myfyrwyr i'r Chweched Dosbarth a cholegau, ac a fyddai’n ymarferol cyflwyno polisi taliadau i fyfyrwyr ôl-16.
- cadarnhaodd bod cyllid ar gael hyd haf 2014 o’r gyllideb addysg 14-19 i dalu costau cludiant, ond roedd y Gweinidog hyd yma ond wedi gwarantu cyllid grant hyd at fis Mawrth 31, 2014.
- bod llwybrau dysgu 14-19 yn llwyddiant digamsyniol ar draws Cymru. Roedd safonau a chyfranogiad myfyrwyr wedi codi ac roedd mwy a mwy o bobl ifanc yn ennill cymwysterau sgiliau. Roedd posibilrwydd y byddai’r Llywodraeth yn parhau i ariannu ar ôl 2014 ond o bosibl ddim ar ffurf grant yn benodol i’r ddarpariaeth hon; byddai’n fwy tebygol o ffurfio rhan o Grant Cefnogi Refeniw'r Cyngor (RSG) ac felly ni fyddai’n rhaid ei gylch-ffensio.

Trafodwyd taliadau cludiant ymhellach, ac awgrymwyd pe byddai myfyrwyr yn talu am gludiant y byddai’n rhaid cynnal prawf modd. Roedd hyn oherwydd yr effaith fyddai taliadau cludiant yn ei gael ar gyllideb teuluoedd ar incwm isel.

Soniodd 14-19 NC hefyd am bartneriaethau ysgol/coleg pellach i’r dyfodol a oedd yn cael eu trafod ac y byddai trafodaethau’n cael eu cynnal yn fuan gyda Chyngor Sir Bwrdeistref Wrecsam gyda golwg ar weithio partneriaeth yn ardal Dyffryn Dyfrdwy.

Gan fod llawer o’r sir yn wledig ei natur, roedd Aelodau’n teimlo bod dyletswydd yn dal i fod ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau addysg i bobl ifanc. Awgrym pellach oedd newid amseroedd bysiau mewn ardaloedd gwledig i hwyluso plant a oedd yn teithio i ysgolion a cholegau.

***Penderfynwyd*** *- yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor yn derbyn y deilliannau hyd yn hyn, costau, buddion, gwerth am arian a risgiau’r Partneriaethau Trawsnewid yn Addysg Ôl-16 yn Sir Ddinbych.*

## 6 MONITRO SEFYLLFA ARIANNOL YSGOLION

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol (HIA) adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i’r Pwyllgor graffu ar y prosesau sydd ar waith i gynorthwyo ysgolion sydd wedi’u hadnabod fel rhai sy’n cael anhawster ariannol i gynnal eu cynlluniau adfer, lleihau eu diffyg a lliniaru’r effaith posibl ar eu perfformiad addysgol. Yn dilyn cyfarfod blaenorol o’r Pwyllgor Craffu, roedd gwaith archwilio wedi’i gynnal fel y gofynnwyd. Roedd Tîm y Rheolwr Cyllid Addysg wedi monitro ysgolion ac wedi cynorthwyo yn fuan i reoli cyllid problemus ysgolion. Cadarnhaodd y HIA bod cynlluniau gweithredu a gweithdrefnau grymus yn eu lle.

Darganfu Archwilio Mewnol bod gwelliant sylweddol wedi digwydd o ran monitro perfformiad ariannol ysgolion a bod gwaith rhagweithiol ar y gweill i wella’r gwasanaeth ymhellach a delio gydag unrhyw feysydd gwella a ganfuwyd. Rhoddodd y HIA grynodeb byr o’r canlyniadau allweddol o adolygiad archwilio mewnol.

Mewn ymateb i gwestiynau a gyflwynwyd gan Aelodau, cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid Addysg:-

- mai un opsiwn a drafodwyd gyda’r Fforwm Cyllideb Ysgol (SBF) oedd cael polisi lleol yn seiliedig ar % o gyllid yr ysgol ac unrhyw adfachiad yn mynd i bot canolog i’w ddefnyddio i gefnogi ysgolion mewn trafferthion ariannol lle'r oedd y sefyllfa wedi’i hachosi gan ffactorau allanol. Byddai’r opsiwn hwn yn cael ei archwilio ymhellach yn ystod 2013/14. Roedd eisoes polisi yn ei le, sef polisi a oedd yn gweithio, a oedd yn annog ysgol i gynilo o flaen llaw yn hytrach na benthyg. Roedd yn rhaid i ysgolion â diffyg ariannol wneud cais am ddiffyg trwyddedig. Roedd yn rhaid i holl ysgolion a oedd wedi’u categoreiddio fel “ysgol mewn trafferth ariannol” gynhyrchu cynllun adfer ariannol gan ddefnyddio templed a ddarperir gan

Gyllid Addysg. Roedd y Tîm Cyllid yn archwilio'r cynlluniau adfer ac yn eu trafod gyda'r Rheolwr Cyllid ysgol.

- tra bod gan awdurdodau addysg lleol y pŵer i adfachu gweddillion ysgol dros ben, nid oedd Sir Ddinbych, fel y mwyafrif o awdurdodau addysg lleol eraill, yn gweithredu'r pŵer hwn os oedd yn derbyn achosion busnes dilys a oedd yn arddangos y rhesymau pam yr oedd y gweddillion yn cael eu cronni. Roedd sylwadau hefyd wedi'u hanfon i Lywodraeth Cymru trwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) mewn perthynas â hyn ac roedd trafodaethau yn parhau.

***Penderfynwyd –*** *derbyn sicrwydd y Pennaeth Archwilio Mewnol bod gweithdrefnau cadarn yn eu lle a bod unrhyw welliannau a adnabuwyd yn cael eu rhoi ar waith.*

## 7 FFORMIWLA CYLLIDO YSGOLION SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Addysg (EFM) adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i Aelodau'r Pwyllgor adolygu'r cynigion i'r fframwaith ar gyfer y Fformiwla Cyllido newydd mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig.

Roedd Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o gyllido ysgolion o fewn y sir. Nid oedd adolygiad cynhwysfawr wedi digwydd ers cyflwyno Rheolaeth Leol ar Ysgolion (LMS) yn 1990.

Roedd y Cyngor yn mynd yn ôl at drefniadau sylfaenol ynghylch sut roedd ysgolion yn cael eu hariannu ac yn edrych at roi mwy o hyblygrwydd i ysgolion o ran sut oeddynt yn gwario eu cyllideb flynyddol. Yn ôl y fformiwla cyllido newydd arfaethedig, byddai ysgolion yn y dyfodol yn derbyn cyllidebau cwricwlwm, a'r hawl i ddewis sut i wario'r arian, h.y. athrawon, gweithgareddau cwricwlaidd. Roedd y Tim Rheoli Gwasanaeth Addysg ac ysgolion yn cydweithio ar y prosiect hwn.

Roedd y fformiwla flaenorol yn gymhleth iawn, ond byddai'r fformiwla newydd yn canolbwyntio ar 2 brif faes:-

- Cyfuno'r 3 fformiwla prif ffrwd presennol i'r Cynradd, Uwchradd ac Arbennig yn un fformiwla brif ffrwd.
- Lleihau nifer yr elfennau sy'n bodoli o fewn y fformiwla i nifer bach o "Elfennau Gweithgaredd Strategol" a fyddai'n canolbwyntio mwy ar "Sbardun Cost Gweithgaredd" yn hytrach na chostau gwirioneddol.

Roedd yn bwysig canolbwyntio ar egwyddorion craidd yr adolygiad yn hytrach nag ar yr effaith ar ysgolion unigol. Byddai trefniadau trosiannol yn eu lle, ond pwrpas yr adolygiad oedd creu tryloywder, unffurfiaeth a thegwch o ran ariannu yn hytrach na chreu enillwyr a chollwyr.

Cynlluniwyd i'r fformiwla newydd ddechrau gweithredu ar 1 Ebrill 2013 gyda gwarant ddiogelu o ddwy flynedd greiddiol i'r ysgolion hynny fyddai'n cael eu heffeithio'n negyddol gan y newidiadau.

Roedd hyfforddiant yn fater a oedd dan sylw a byddai ymweliadau wedi'u trefnu ag ysgolion unigol yn digwydd. Byddai Llywodraethwyr a Phenaethiaid yn elwa o ddysgu sut i wneud penderfyniadau ynghylch ariannu.

Roedd gwaith yn digwydd ynghylch clybiau allan tu allan i'r ysgol (clybiau ar ôl ysgol a chlybiau brecwast). Nid oedd y clybiau hyn yn swyddogaethau addysg statudol. Er nad oedd gan y Cyngor rôl o fewn y clybiau hyn, byddai'n ymgymryd â gwaith gyda golwg ar lunio canllawiau ynghylch sut i'w rheoli'n effeithiol ac osgoi problemau posibl. Roedd canllawiau ynghylch diogelu i fod i gael eu cwblhau.

Mynegwyd pryder ynghylch nifer y galwadau ffôn posibl y gallai Cynghorwyr lleol eu derbyn oherwydd bod rhai ysgolion yn colli allan ar arian. Roedd trefniadau trosiannol yn cael eu rhoi ar waith i unrhyw ysgol a allai golli allan dan y fformiwla newydd. Byddai'r fformiwla newydd yn seiliedig ar faint o arian y derbyniodd ysgolion Ebrill diwethaf.

Cadarnhawyd bod Swyddogion Ariannol Clystyrau Ysgol wedi bod yn eu gwaith am fwy na wyth mis ac wedi'u derbyn yn dda.

Cytunodd yr EFM adrodd nôl i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 18 Hydref 2012 gyda fersiwn derfynol y ddogfen ymgynghorol ar y fformiwla ddiwygiedig arfaethedig.

***Penderfynwyd**:-*

*(a)* *yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Pwyllgor yn derbyn y byddai'r cynigion yn darparu model fformiwla ariannu effeithiol a grymus i ysgolion prif ffrwd ac arbennig fel ei gilydd yn Sir Ddinbych; a*

*(b)* *y dylid cyflwyno'r ddogfen ymgynghori derfynol i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod mis Hydref cyn ei chyflwyno i'r Cabinet.*

**Cafwyd egwyl am 10.45 y.b.**

**Gwnaeth y cyfarfod ail-ymgynnull am 10.55 y.b.**

## 8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cydlynydd Craffu (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu blaen-raglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol. Roedd atodiadau amrywiol ynghlwm wrth yr adroddiad er ystyriaeth yr aelodau.

Adroddodd y Cydlynydd Craffu ar y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a oedd i'w gynnal ar 20 Medi 2012 i drafod Cynllun Corfforaethol drafft y Cyngor. Roedd y Cynllun i'w drafod mewn cyfarfod anffurfiol yn dilyn cyfarfod llawn o'r Cyngor ar 11 Medi, ac felly'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 20 Medi.

Adolygiad Ysgolion Rhuthun wedi'i osod ar Flaen-raglen Waith y Cabinet naill ai i Hydref neu Dachwedd. Dylai eglurhad ynglŷn ag ariannu fod ar gael cyn diwedd yr

wythnos a bryd hynny byddai cadarnhad ynghylch y dyddiad y byddai'r eitem yn cael ei thrafod.

Ysgol seiliedig ar Ffydd – roedd briff ynghylch cyd-ddarpariaeth addysg ffydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen Briff Gwybodaeth a ddosbarthwyd i aelodau. Roedd dyddiadau 17 Medi a 27 Medi wedi'u clustnodi ar gyfer hyfforddiant i aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig ar y rhaglen moderneiddio addysg. Roedd modd trefnu sesiynau pellach neu sesiynau un i un i aelodau nad oedd yn gallu mynychu unrhyw un o'r digwyddiadau hyn.

Mae Atodiad 1 o'r ddogfen Briff Gwybodaeth yn cynnwys adroddiad gwybodaeth ar Safonau Gwasanaeth Llyfrgell.

O ran y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhelir ar 13 Medi 2012, bydd y pwyllgor cyfan wedi'i neilltuo i Raglen y Rhyl yn Symud Ymlaen.

Archwiliadau Allanol ar Raglen Waith y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 10 Ionawr 2013. Estynnir gwahoddiad i gynrychiolwyr Chweched Dosbarth Prestatyn Rhyl (PR6) fynychu'r cyfarfod hwn.

***Penderfynwyd*** *- yn amodol ar y newidiadau a'r cytundebau y cyfeirir atynt uchod, y dylid cymeradwyo'r blaen-raglen waith fel y manylir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.20 y.b.**